



**Cyfarfod agored gyda Bwrdd CHC  
ddydd Llun 13 Chwefror 2017  
yn y MRC, Llandrindod**

*Cynhaliodd Bwrdd CHC y cyntaf o ddau gyfarfod bwrdd agored ar 13 Chwefror 2017. Diben y cyfarfod bwrdd agored oedd:*

- *Rhoi cyfle i'r bwrdd drafod gwaith CHC gyda'r aelodaeth ehangach;*
- *Profi os yw'r seilwaith a roddwyd yn ei le gan CHC (ac a nodir yn adran 1 y papur hwn) yn llwybr effeithlon i sicrhau cynrychiolaeth ac ymgysylltu ag aelodau; a*
- *thrafod materion sector o bwysigrwydd strategol gyda'r aelodaeth ehangach.*

*Mynychwyd y cyfarfod gan gynrychiolwyr 5 cymdeithas tai ynghyd ag aelodau bwrdd CHC a'r Pwyllgor Gwaith.*

*Roedd y materion allweddol a godwyd yn y cyfarfod yn cynnwys:*

**Llywodraethiant CHC:** Rhoddwyd diweddariad ar y gwaith i sefydlu trefniadau llywodraethiant diwygiedig ar gyfer CHC. Mae diweddariad ar gael [yma](#). Trafodwyd rôl Bwrdd CHC wrth ddal CHC i gyfrif a sicrhau ei fod yn agored ac yn adlewyrchu amrywiaeth anghenion a blaenoriaethau aelodau yn ei weithgareddau. Roedd y Bwrdd yn glir yr ystyrient hyn yn rhan allweddol o'u rôl fel bwrdd busnes, yn hytrach na datblygu sefyllfaoedd polisi.

**Tai gwledig:** Trafodwyd pwysigrwydd adlewyrchu amrywiaeth llawn yr ardaloedd lle mae aelodau CHC yn gweithredu yng ngwaith CHC. Soniodd nifer o'r rhai oedd yn bresennol y dylid rhoi mwy o ffocws ar faterion gwledig a'r heriau a brofwyd wrth gyflenwi ac adeiladu cartrefi mewn cymunedau gwledig o fewn yr ystod eang o faterion polisi y mae CHC yn gweithio arnynt.

**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:** Trafodwyd cylch gorchwyl a chynnydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hyd yma a risgiau i enw da a sector yn deillio o'r ymchwiliad. Mae tystiolaeth ysgrifenedig CHC i'r ymchwiliad ar gael [yma](#).

**Fframwaith rheoleiddio:** Trafodwyd gweithrediad y fframwaith rheoleiddiol newydd a phwysigrwydd cynnal ac ymwreiddio datrysiad Cymreig. Mae gwybodaeth bellach ar y newidiadau rheoliadol ar gael [yma](#).

*Bydd y bwrdd yn parhau i gynnal cyfarfodydd bwrdd agored a byddem yn croesawu eich sylwadau ar y ffordd orau i'r bwrdd dderbyn adborth gan gymdeithasau tai am waith CHC a materion allweddol eraill.*